Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

**Rhaglen Ariannu Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy 2016–2017**

**Adroddiad Cryno**

Mae gan yr adroddiad hwn ynglŷn â Rhaglen Ariannu Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy 2016–2017 ddau brif ddiben.Mae’n crynhoi'r prif allbynnau a phwyntiau dysgu allweddol o'r rhaglen ac yn rhoi manylion ynghylch y mathau o waith a phrosiectau enghreifftiol a wnaed yn ystod nawfed flwyddyn y rhaglen ariannu.


Mae’n cyd-fynd ag Adroddiad Allbynnau Diwedd Blwyddyn 2016–2017 y Rhaglen Ariannu Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy, ac Adroddiad Astudiaethau Achos 2016–2017 y Rhaglen Ariannu Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy.

**Cefndir**

Ers 2008, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi hwb enfawr er mwyn gwneud gwelliannau i'r hawliau tramwy ledled Cymru drwy'r Rhaglen Ariannu Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy. Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gweinyddu'r arian hwn ar ran Llywodraeth Cymru.

Yn 2016–2017, dyrannwyd £1 miliwn i'r rhaglen, gan ddod â'r cyfanswm ers 2008–2009 i £11.9 miliwn.

## Cyflawniadau allweddol yr arian yn 2016–2017




a) Gwelliannau ymarferol ar lawr gwlad

### a) Gwelliannau ymarferol ar lawr gwlad

Gwariwyd **£756,883** ledled Cymru er mwyn gwella mynediad presennol. Gwnaeth y gwaith ymarferol hwn gyfrannu at wella'r gyfran o'r rhwydwaith y mae'n hawdd ei defnyddio. Roedd camau gweithredu'n cynnwys gwella dodrefn y llwybrau megis pontydd a giatiau a gwella arwynebau – er enghraifft, gwella draeniad llwybrau.

Photo: *Pont Glo-byllau, ar Lwybr Ebwy Fach, Abertyleri (Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent)*

### Roedd camau gweithredu i wella mynediad llinellol yn cynnwys



Gwaith gwella'r arwyneb er mwyn uwchraddio llwybrau troed i lwybrau ceffylau;

Photo: Llun o lyfrgell Cyfoeth Naturiol Cymru



Gwelliannau mynediad i lwybrau troed, gan gynnwys pontydd newydd a newid camfeydd am gatiau mochyn;

Photo: Llwybr troed Cwmsychbant, Cyngor Sir Ceredigion



Tynnu camfeydd a rhwystrau a oedd yn rhwystro mynediad i ddefnyddwyr ar hyd llwybrau a hyrwyddir a llwybrau o arwyddocâd lleol;

Photo: Gwella'r mynediad at Gae Chwarae Caeathro, Gwynedd



Gosod arwyddion a chyfeirbwyntiau, a gatiau sy'n cau eu hunain i ddisodli camfeydd;

Photo: Am resymau diogelwch, disodlwyd camfa a ddifrodwyd ac sy'n arwain at ffordd fawr brysur gan giât mochyn (Cyngor Caerdydd)



Cerddwyr Cŵn Gwyrdd – rhoi gwybodaeth i gerddwyr cŵn sy'n defnyddio mynediad cyhoeddus

Photo: Llun o lyfrgell Cyfoeth Naturiol Cymru



Gwella mynediad at lwybrau amlddefnydd, gan ganiatáu i bobl â phroblemau symudedd gael mynediad at lwybrau yn haws

Photo: Llun o lyfrgell Cyfoeth Naturiol Cymru




b) Gwelliannau sydd o fudd i fwy nag un grŵp o ddefnyddwyr

## b) Gwelliannau sydd o fudd i fwy nag un grŵp o ddefnyddwyr – gan gynnwys cerddwyr, beicwyr a marchogwyr

Parhaodd y duedd i wella hawliau tramwy ar gyfer mwy nag un defnyddiwr.Gyda'i gilydd, gwnaeth prosiectau a oedd o "fudd cyffredinol i bob defnyddiwr" a phrosiectau a oedd o "aml-fudd" gyfrif am **£468,319** o gyfanswm gwerth prosiectau.

Photo:  Llwybr ceffylau ar gyrion pentref Llys-wen, Powys



Y grŵp unigol mwyaf o ddefnyddwyr sy'n debygol o gael budd o gamau gweithredu aml-fudd yw cerddwyr;

Photo : Gwelliannau i lwybr troed ar Ystad Ddiwydiannol Wrecsam



Gwnaed o leiaf un cam gweithredu a oedd o fudd i grwpiau "defnydd isel", a ddiffinnir fel "grwpiau sy'n gwneud defnydd anghymesur o isel o'r cefn gwlad", gan 12 o awdurdodau lleol;

Photo: Llun o lyfrgell Cyfoeth Naturiol Cymru



Roedd grwpiau defnydd isel hefyd yn cael eu cynrychioli mewn camau gweithredu eraill nad oeddent wedi'u hanelu yn benodol at grwpiau defnydd isel.

Photo: Llun o lyfrgell Cyfoeth Naturiol Cymru



c) Gwelliannau i wneud mynediad awyr agored yn haws i bobl sy'n cael anawsterau wrth ddefnyddio'r awyr agored

## c) Gwelliannau i wneud mynediad awyr agored yn haws i bobl sy'n cael anawsterau wrth ddefnyddio'r awyr agored

Nid oedd unrhyw ofyniad i gyflenwi prosiect penodol ar gyfer "grwpiau defnydd isel", ond gwnaeth yr awdurdodau mynediad gydymffurfio â'r egwyddorion lleiaf cyfyngol. Anelwyd 23 o brosiectau penodol at hwyluso mynediad i grwpiau sy'n gwneud defnydd anghymesur o isel o'r cefn gwlad a chyfanswm yr arian ar gyfer y prosiectau hyn oedd **£128,963.**

Photo: Tŷ'r Ash Bridge, Bullpit Meadows, Crucywel

**Roedd gwaith a wnaed er mwyn hwyluso defnydd gwell ar gyfer y rhai sy'n gwneud defnydd anghymesur o isel o'r cefn gwlad yn cynnwys:**



Gosodwyd mwy o gatiau na chamfeydd ledled Cymru, gan hyrwyddo'r mynediad lleiaf cyfyngol i gymaint o bobl â phosib;

Photo: Giât a phont droed newydd yn Abermeurig, Ceredigion



Arwynebu llwybrau troed er mwyn hwyluso'r mynediad lleiaf cyfyngol;

Photo: Gwarchodfa Natur Parc Slip, Pen-y-bont ar Ogwr



Gosod arwyddion gweledol a marcwyr hyder, a byrddau gwybodaeth ar lwybrau safleoedd;

Photo: Llwybr y Tri Chastell, Sir Fynwy



Gosod meinciau y mae modd i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn eu defnyddio ym Merthyr Tudful.

Photo: Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful




## d) Statws llwybrau a seilwaith gwell:

Mae 786.8km o'r rhwydwaith hawliau tramwy bellach yn haws ei ddefnyddio yn dilyn gwelliannau y gwnaeth y rhaglen ariannu a ffynonellau ariannu eraill gyfrannu atynt yn 2016–2017.

Roedd y rhan fwyaf o'r llwybrau a gafodd eu gwella yn 2016–2017 naill ai'n llwybrau troed neu lwybrau ceffylau ond gwelodd pob math o lwybrau rywfaint o welliant.

Photo: Llwybr ceffylau 39.R-Cly (Pontardawe), Taith Sant Illtud

**Dengys isod hyd y llwybrau y mae'r rhaglen ariannu wedi helpu i'w wneud yn "hawdd ei ddefnyddio" yn ystod 2016–2017 (gan gynnwys cyfraniadau o ffynonellau ariannu eraill):**



545.4km o lwybrau troed

Photo: Llun o lyfrgell Cyfoeth Naturiol Cymru



32.4km o lwybrau beiciau

Photo: Llun o lyfrgell Cyfoeth Naturiol Cymru



182.2km o lwybrau ceffylau

Photo: Llun o lyfrgell Cyfoeth Naturiol Cymru



15.5km o gilffyrdd cyfyngedig

Photo: Llun o lyfrgell Cyfoeth Naturiol Cymru



11.4km o gilffyrdd sydd ar agor i unrhyw draffig


Photo: Llun o lyfrgell Cyfoeth Naturiol Cymru

## Prosiect enghreifftiol: Gwybodaeth a chyhoeddusrwydd

**Llwybr Hanes Llangollen (Cyngor Sir Ddinbych)**

Gyda chymorth y Rhaglen Ariannu Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy, roedd modd i Wasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych gynllunio adolygiad o'i lwybrau llinellol a hyrwyddir drwy'r sir a dechrau ymgymryd â diweddariadau a gwaith atgyweirio i'r llwybrau hyn.Gwnaeth arian gan y Cynllun Datblygu Gwledig sicrhau bod modd diweddaru taflen wybodaeth Llwybr Hanes Llangollen yn 2015, sydd bellach â map OS ynddi er mwyn gwneud y gwaith o ddod o hyd i'r ffordd ac adnabod y llwybr yn haws. Gwnaeth hefyd ychwanegu llwybr ychwanegol at Gastell Dinas Brân. Llwybr cylchol chwe milltir o hyd yw Llwybr Hanes Llangollen, sy'n eich tywys o gwmpas nifer o'r safleoedd o ddiddordeb arbennig yn y dref ac o'i chwmpas.

Mae arian CGHT eleni wedi ychwanegu gwerth pellach at y prosiect hwn, ac wedi galluogi diweddaru'r arwyddion ar hyd y daith drwy brynu mynegbyst, pyst cyfeirbwyntiau a disgiau cyfeirbwyntiau. Gwnaeth grŵp brwdfrydig o wirfoddolwyr o ardal Llangollen gwblhau'r gwaith o osod y pyst.



## Prosiect enghreifftiol: Gwirfoddolwyr

**Gwirfoddolwyr Gwasanaethau Cefn Gwlad yn dechrau gwaith ar lwybrau troed cymunedol (Cyngor Sir Powys)**



Mae tîm o wirfoddolwyr o Wasanaethau Cefn Gwlad Cyngor Sir Powys wedi bod yn brysur yn gwneud gwaith cynnal a chadw ar ddau lwybr cymunedol fel rhan o Lwybr Cenedlaethol er budd cymunedau lleol Abaty Cwm-hir a Bwlchysarnau.Mae cyfeirbwyntiau ychwanegol wedi'u gosod ar y rhan o Lwybr Cymunedol Abaty Cwm-hir lle mae'n mynd i mewn i Goed Sarnau uwchben pentref Abaty Cwm-hir.Ar ochr arall y dyffryn, mae'r tîm wedi bod yn clirio ac yn gosod cyfeirbwyntiau ar ran o'r llwybr cyhoeddus oedd wedi tyfu'n wyllt. Mae'r gymuned leol ym Mwlchysarnau yn bwriadu cynnwys y llwybr fel rhan o daith gerdded gylchol leol sy'n cysylltu â Llwybr Cenedlaethol Llwybr Glyndŵr. Mae nifer o hen byst cyfeirbwyntiau ar Lwybr Glyndŵr hefyd wedi'u disodli fel rhan o'r gwaith.

Dywedodd y Cynghorydd, W. John T. Powell, Deiliad Portffolio dros yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd, "Drwy helpu i gynnal y rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus ym Mhowys, mae ein timau gwirfoddol, pob un dan arweinyddiaeth arweinydd tîm profiadol, yn sichrau manteision sylweddol i bobl leol ac ymwelwyr â'r ardal."

Mae astudiaethau achos pellach ar gael yn adroddiad "Astudiaethau Achos Rhaglen Ariannu Gwella Hawliau Tramwy 2016-2017."